# Adroddiad ar gyfer

# Busy Bods @ Ysgol Bodfari

**Ysgol Bodfari**
**Bodfari**
**Dinbych**
**Sir Ddinbych**
**LL16 4DA**

**Dyddiad yr arolygiad:  Gorffennaf 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Busy Bods @ Ysgol Bodfari

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Busy Bods @ Ysgol Bodfari |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Busy Bods @ Ysgol Bodfari |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n gymwys) | Susan Dick |
| Person â chyfrifoldeb | Louisa Jones |
| Nifer y lleoedd | 20 |
| Ystod oedran y plant | 2 flwydd a 3 mis oed hyd at 11 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 oed | 10 |
| Nifer y plant sy'n cael cyllid ar gyfer addysg gynnar | 2 |
| Diwrnodau / amseroedd gweithredu | Dydd Llun i ddydd Gwener 11:30 – 15:00 yn ystod y tymor. Dydd Llun i ddydd Gwener 8:00 – 17:00 yn ystod gwyliau ysgol. |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac ydy |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad hwn yn darparu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu "Cynnig Rhagweithiol" ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg na diwylliant Cymru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 18/10/2019 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Dd/G |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 02/07/2024 |
| Mae'n lleoliad cyfrwng Saesneg a Saesneg yw iaith gyntaf bron pob plentyn sy'n mynychu'r lleoliad. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol)** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Achosion o ddiffyg cydymffurfio

**Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Datblygu asesiadau risg mwy cadarn sy'n sicrhau bod pob perygl yn cael ei nodi a'i reoli'n briodol

A2 Darparu mwy o adnoddau go iawn i gefnogi creadigrwydd a chwilfrydedd y plant

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut mae'n bwriadu ymdrin â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Llesiant: Da**

Mae bron pob plentyn yn teimlo'n gartrefol ac yn cyfathrebu'n fedrus. Mae ganddynt lais cryf ac maent yn rhannu eu hanghenion, eu meddyliau a'u syniadau yn hyderus. Mae'r plant yn gwybod y bydd y staff yn gwrando arnynt ac mae hyn yn cael dylanwad cadarnhaol ar y profiadau a'r gofal y maent yn eu cael. Er enghraifft, maent yn rhannu syniadau ar gyfer pynciau a beth yr hoffent ddysgu amdano fel rhan o'r broses gynllunio. Mae'r plant yn cael cyfleoedd i wneud dewisiadau priodol wrth iddynt symud o gwmpas yr amgylchedd yn penderfynu â beth yr hoffent chwarae a ble, er enghraifft, wrth ddewis chwarae dan do neu yn yr awyr agored.

Mae bron pob plentyn yn setlo'n dda ac yn teimlo'n gyfforddus yn yr amgylchedd cyfarwydd. Maent yn datblygu cydberthnasau cadarnhaol â'r ymarferwyr ac yn gwybod at bwy i fynd am gysur a chymorth, gan eu helpu i deimlo'n ddiogel. Mae'r plant yn gwneud ffrindiau sy'n bwysig iddynt ac sydd o fudd i'w profiadau chwarae a dysgu. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan eu bod yn gwybod y gallant fynegi eu hunain yn rhydd a bod y staff yn gwrando arnynt mewn ffordd sy'n dangos dealltwriaeth a pharch.

Mae bron pob plentyn yn rhyngweithio'n dda ac yn ymddwyn yn briodol o ystyried eu hoedran a'u cam datblygu. Maent yn dilyn yr arferion yn dda ac yn deall y disgwyliadau. Caiff y plant gyfleoedd a phrofiadau priodol i ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol. Maent yn mwynhau sgwrsio â'u ffrindiau a'r ymarferwyr, gan rannu eu diddordebau a'u syniadau. Mae'r plant yn barchus ac yn dysgu i gydweithio a deall anghenion pobl eraill, gan rannu adnoddau a chymryd tro. Er enghraifft, maent yn aros am eu tro mewn gêm neu'n caniatáu i blant eraill gael tro ar y beic y maent yn ei ddefnyddio.

Mae bron pob un o'r plant yn ymgysylltu'n dda â'r gweithgareddau o'u dewis, gan ddilyn eu diddordebau ac ehangu eu dysgu. Maent yn mwynhau'r gweithgareddau a'r profiadau chwarae sydd ar gael, gan ganolbwyntio am gyfnod priodol, er enghraifft, wrth nodi sbwriel y gellir ei ailgylchu. Mae'r plant yn dysgu ac yn datblygu'n dda drwy eu gweithgareddau chwarae annibynnol a gweithgareddau a arweinir gan oedolion. Maent yn cael cyfleoedd i gyfarwyddo eu gweithgareddau chwarae eu hunain wrth iddynt symud yn rhydd o gwmpas yr amgylchedd. Maent yn dysgu i fod yn annibynnol drwy gael gafael ar yr eitemau o'u dewis, megis ceir o'r ardal dan do neu flociau o feintiau gwahanol o fasged yn yr ardal awyr agored. Yn ystod amser byrbryd, caiff y plant ystod o gyfleoedd i fod yn annibynnol gan eu bod yn gweini eu bwyd eu hunain ac yn arllwys eu diodydd eu hunain. Mae'r plant yn mwynhau eu profiadau dysgu ac yn cael eu hysbrydoli i ddatblygu eu sgiliau drwy chwarae.

**Dysgu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm dros hyn yw nad oedd digon o blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg a gyllidir yn rhywle arall yn bresennol ar adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb i blant unigol gael eu hadnabod.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel. Maent yn deall y weithdrefn i'w dilyn os bydd ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder mewn unrhyw ffordd. Mae'r ymarferwyr yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau effeithiol. Maent yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau yn gywir ac mae ganddynt weithdrefnau cadarn ar gyfer rhoi meddyginiaeth. Mae'r ymarferwyr yn cynnal ymarferion tân rheolaidd er mwyn iddyn nhw a'r plant fod yn ymwybodol o'r hyn i'w wneud mewn argyfwng.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo ffordd iach o fyw yn effeithiol. Maent yn cynnig dewis iach a maethlon o fyrbrydau ac yn sicrhau bod diodydd ar gael yn aml, er mwyn gwneud yn siŵr bod y plant yn yfed digon. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod arferion yn cefnogi sgiliau corfforol y plant a'u bod yn cael awyr iach yn rheolaidd. Mae digon o gyfleoedd buddiol i ddefnyddio'r ardaloedd chwarae awyr agored a'r amgylchedd lleol, er enghraifft, teithiau cerdded a gwibdeithiau i fannau lleol sydd o ddiddordeb, megis y parc lleol.

Mae'r ymarferwyr yn modelu ymddygiad priodol yn effeithiol ac yn rhoi cymorth buddiol sy'n annog y plant i ryngweithio'n dda. Maent yn cyfathrebu â'r plant mewn ffordd sy'n briodol i'w hoedran a'u cam datblygu ac yn creu awyrgylch hamddenol lle mae'r plant yn teimlo'n hyderus i rannu eu syniadau a'u profiadau. Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd da i'r plant fod yn gymdeithasol ac yn helpu'r plant i ddatblygu eu sgiliau iaith a lleferydd yn dda. Er enghraifft, maent yn eistedd gyda'r plant yn ystod amser byrbryd ac yn siarad am eu diddordebau eu hunain a diddordebau'r plant a'r hyn y maent wedi bod yn ei wneud gartref ac yn y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn rheoli ymddygiad y plant mewn ffordd gyson ac effeithiol. Maent yn defnyddio canmoliaeth yn effeithiol i annog rhyngweithio cadarnhaol ac yn sicrhau bod y plant yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a bod ganddynt agwedd gadarnhaol. Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio ar ymddygiadau cadarnhaol y plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn arddangos lluniau o'r plant yn gwneud pethau y gallent gael sticeri amdanynt ac yn dathlu cyflawniadau'r plant ar y wal 'waw'. Er enghraifft, mae lluniau o'r plant yn rhannu teganau ac yn helpu i dacluso. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar helpu'r plant i ryngweithio â'i gilydd mewn ffordd gadarnhaol a thrin adnoddau â dealltwriaeth a pharch.

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth dda o sut i gefnogi datblygiad y plant. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn deall eu hanghenion datblygiadol, emosiynol ac o ran arferion. Mae hyn yn eu galluogi i ddarparu cymorth a gofal sydd wedi'u teilwra i

bob plentyn, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ymarferwyr yn casglu ac yn ystyried barn a diddordebau'r plant yn dda ac yn defnyddio'r rhain i gynllunio adnoddau a gweithgareddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a sgiliau'r plant yn briodol. Mae'r ymarferwyr yn nodi ac yn ystyried y camau nesaf o ran dysgu'r plant yn llwyddiannus wrth gynllunio. Maent yn darparu cyfleoedd priodol i'r plant fod yn annibynnol wrth chwarae ac o ran eu harferion. Er enghraifft, yn ystod amser byrbryd, mae'r plant yn taenu menyn ar eu cracers ac yn torri'r ffrwythau meddal.

**Addysgu ac asesu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol): Da**

Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu a chwarae diddorol a buddiol sy'n diwallu anghenion y plant yn dda. Maent wedi datblygu dealltwriaeth gadarn o'r Cwricwlwm i Gymru a adlewyrchir yn dda yn yr amgylchedd dysgu cyfoethog a'u parodrwydd i adael i'r plant ddysgu drwy ddarganfod a chwarae. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio mewn ffordd gryno, gan ystyried cam datblygu'r plant, eu diddordebau, eu barn a'u camau nesaf yn llwyddiannus.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r amgylchedd dysgu dan do ac awyr agored yn dda i annog y plant i archwilio'r ardaloedd dysgu gwahanol a darganfod pethau drostynt eu hunain. Mae'r profiadau gwerth chweil hyn yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i'r plant atgyfnerthu eu dysgu ac yn cefnogi eu datblygiad ym mhob rhan o'r cwricwlwm. Mae gwybodaeth yr ymarferwyr am y cwricwlwm newydd yn sicrhau eu bod yn cynllunio'n dda i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd y plant drwy'r ystod briodol o brofiadau a gynigir. Mae'r gweithgareddau hyn yn annog y plant i ddefnyddio eu sgiliau i archwilio, datrys problemau a defnyddio eu dychymyg. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu datblygiad yn y lleoliad.

Mae'r gwelliannau a wnaed i'r ardal ddysgu awyr agored yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn gwneud defnydd da o'r amgylchedd er mwyn darparu ystod eang o brofiadau dysgu buddiol i'r plant. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r ardal leol yn effeithiol i gefnogi dealltwriaeth y plant o'r byd a'u cymuned, er enghraifft drwy ymweld â'r parc lleol. Fodd bynnag, cyfleoedd cyfyngedig sydd i ymwelwyr ddod i'r lleoliad i gyfoethogi gwybodaeth a phrofiadau'r plant.

Yn gyffredinol, mae'r ymarferwyr yn cynnig ystod addas o gyfleoedd i'r plant glywed a defnyddio'r Gymraeg, er enghraifft, drwy ganu caneuon, gofyn cwestiynau cyfarwydd a rhoi cyfarwyddiadau syml yn Gymraeg. Maent yn annog y plant i ddathlu eu treftadaeth drwy ddysgu am draddodiadau a dathliadau Cymru, megis Dydd Gŵyl Dewi yn ogystal â dysgu am hanes yr ardal leol, gan gynnwys hanes yr ysgol leol. Mae'r ymarferwyr yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i'r plant ddysgu am leoedd a diwylliannau gwahanol. Er enghraifft, mae'r plant yn gwisgo i fyny mewn dillad Affricanaidd traddodiadol a Saris ac yn blasu bwydydd gwahanol, gan gynnwys nwdls a chracers corgimwch adeg y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda. Maent yn annog y plant i gymryd rhan mewn profiadau dysgu a chwarae mewn ffordd gadarnhaol. Maent yn gwybod pryd i

ymyrryd er mwyn cefnogi a datblygu sgiliau dysgu a meddwl y plant. Mae'r ymarferwyr yn modelu chwarae yn effeithiol ac yn cynnwys y plant mewn gweithgareddau yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio cwestiynau ac ysgogiadau i ymestyn ymgysylltiad, datblygiad iaith a sgiliau meddwl y plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn eu hannog i ddod o hyd i eitemau y gallant eu hailgylchu o'r ‘môr’, sydd wedi'i osod mewn twba dŵr, a'u disgrifio. Mae'r ymarferwyr yn arsylwi ar ddatblygiad y plant ac yn ei gofnodi'n dda, gan roi sylw i'w patrymau chwarae a'r hyn y maent yn ymddiddori ynddo. Maent yn defnyddio'r arsylwadau hyn i gynllunio ar gyfer camau dysgu nesaf y plant ac maent yn rhannu diweddariadau â rhieni a gofalwyr yn effeithiol.

**Yr Amgylchedd:  Da**

Ar y cyfan, mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn darparu amgylchedd diogel i'r plant chwarae a dysgu. Maent yn dilyn arferion diogelwch effeithiol gan gynnwys, cofnodi presenoldeb y plant a'r ymarferwyr, cofnodi ymwelwyr â'r lleoliad a chloi gatiau a drysau allanol. Mae'r arweinwyr yn nodi ac yn rheoli risgiau'n dda ac yn cynnig cyfleoedd buddiol i'r plant reoli eu gallu eu hunain i gymryd risgiau pwyllog wrth chwarae, er enghraifft, wrth ddringo neu gydbwyso ar gyfarpar a rheoli teiars yn ofalus i'w gilydd. Fodd bynnag, nid yw'r asesiadau risg yn ddigon cadarn, sy'n golygu na chaiff rhai risgiau eu rheoli'n effeithiol, yn enwedig yn yr ardal awyr agored lle roedd ysgall a mieri wedi gordyfu mewn mannau.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr wedi creu amgylchedd croesawgar, sy'n rhoi ymdeimlad o falchder i'r plant. Er enghraifft, mae'r arddangosiadau deniadol o'u gwaith yn rhoi ymdeimlad o berthyn i'r plant. Mae'r amgylchedd yn fawr ac yn darparu'r lle sydd ei angen ar y plant i chwarae a dysgu'n ddiogel. Maent yn defnyddio'r ardaloedd dan do ac awyr agored addas yn effeithiol er mwyn rhoi rhyddid a dewis i'r plant o ran â beth y maent yn chwarae a ble. Mae'r amgylchedd mewn cyflwr da, yn olau ac yn groesawgar. Mae'r amgylchedd awyr agored yn cynnig lle cyffrous lle mae'r plant yn mwynhau chwarae ac archwilio eu hamgylchedd. Mae'r arweinwyr yn sicrhau y gall y plant gael gafael ar adnoddau priodol sy'n eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol er mwyn cefnogi a datblygu eu sgiliau symud a chydsymud.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod adnoddau priodol yn y lleoliad. Mae'r byrddau a'r cadeiriau o faint addas ac mae'r cyfleusterau storio ar lefel isel sy'n golygu y gall y plant fod yn annibynnol ac estyn adnoddau fel y mynnant. Mae toiledau addas ar gael ac mae'r gegin yn caniatáu i fwyd gael ei baratoi a'i storio'n briodol. Mae'r ymarferwyr wedi datblygu ardaloedd dysgu creadigol ac maent yn modelu eu defnydd er mwyn cefnogi sgiliau'r plant yn effeithiol. Mae'r adnoddau y mae'r plant yn cael gafael arnynt ac yn eu defnyddio wrth chwarae a dysgu yn briodol i'w hoedran ar y cyfan ac maent yn helpu i ysbrydoli dysgu a chreadigrwydd. Mae'r arweinwyr yn dechrau cyflwyno adnoddau naturiol a chynaliadwy i ardaloedd chwarae, megis ardaloedd chwarae dŵr ac ardaloedd i balu a thyfu. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i'r plant fod yn greadigol a dysgu drwy ddefnyddio adnoddau go iawn a naturiol yn gyfyngedig. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn cyfoethogi'r amgylchedd yn effeithiol gan ddefnyddio adnoddau i ddatblygu gwybodaeth y plant am y pwnc neu'r thema

ddiweddaraf ymhellach, er enghraifft, bandiau breichiau, cylchoedd rwber a sbectolau haul fel rhan o thema'r traeth. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn darparu adnoddau megis llyfrau a dillad gwisgo i fyny i gynrychioli amrywiaeth a helpu i addysgu'r plant am ddiwylliannau eraill.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r arweinwyr yn rhoi gofal a llesiant y plant wrth wraidd popeth a wnânt. Maent yn falch o'u lleoliad ac yn cydnabod pwysigrwydd eu gwaith wrth gefnogi plant a theuluoedd yn eu cymuned. Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad, ac maent yn ei rhannu'n dda â'r ymarferwyr, y rhieni a'r gymuned ehangach. Maent wedi creu diwylliant cyfeillgar a gofalgar yn y lleoliad sy'n golygu bod y plant yn mwynhau mynd yno. Mae'r arweinwyr yn gwerthfawrogi ac yn cefnogi'r ymarferwyr yn dda, gan sicrhau ethos tîm cryf lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn cael gofal. Mae'r datganiad o ddiben yn adlewyrchu'r gofal a ddarperir ac yn cynnwys gwybodaeth i ddefnyddwyr y gwasanaeth benderfynu a yw'r gofal yn addas iddynt. Mae'r arweinwyr yn ystyried effaith tlodi ar lesiant a datblygiad y plant yn dda, er enghraifft, drwy gefnogi teuluoedd a all fod mewn angen. Yn gyffredinol, maent wedi rhoi ystod o bolisïau a gweithdrefnau buddiol ar waith sy'n cefnogi gofal a datblygiad y plant ac yn cefnogi diwylliant diogelu'r lleoliad.

Un nodwedd amlwg o waith y lleoliad, a'r elusen y mae'n rhan ohoni, yw'r ffordd y mae'r arweinwyr yn rhannu cyfrifoldebau arwain yn llwyddiannus. Maent yn cefnogi'r ymarferwyr i ddatblygu eu sgiliau arwain yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn dyrannu aelodau o'r tîm sy'n gyfrifol am feysydd datblygu yn y lleoliad. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod pob aelod o'r tîm yn cadw'n gaeth at y gwelliannau sydd wedi'u cynllunio. Mae'r cyfrifoldebau hyn yn cysylltu â thargedau perfformiad presennol a blaenorol yr ymarferwyr ac yn adlewyrchu prosesau gwella'r lleoliad yn effeithiol. Mae'r arweinwyr yn rhoi cryn bwyslais ar ddatblygiad proffesiynol parhaus ac mae hyn yn wedi sicrhau bod y lleoliad yn canolbwyntio ar gyfleoedd i'r plant arwain eu dysgu a'u chwarae eu hunain. Mae'r arweinwyr yn defnyddio dull gweithredu cadarn wrth ddatblygu'r staff, gan gynnwys eu goruchwylio, sy'n rhan o broses rheoli perfformiad effeithiol. Maent yn cadw ffeiliau staff priodol ac mae gweithdrefnau cadarn ar gyfer recriwtio staff yn ddiogel.

Mae adolygiad y lleoliad o ansawdd y gofal yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am waith y lleoliad. Mae'r arweinwyr wedi datblygu prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant gwerth chweil i gefnogi gwaith y lleoliad. Mae'r rhain yn seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys barn rhieni a gofalwyr, adroddiadau gan bartneriaid fel yr awdurdod lleol a gwerthusiadau'r ymarferwyr eu hunain o'r ddarpariaeth. Mae hyn yn galluogi'r arweinwyr i nodi meysydd pwysig i'w gwella a chreu cynlluniau gweithredu pwrpasol er mwyn cefnogi'r gwaith hwn yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r arweinwyr wedi llwyddo i wella agweddau allweddol ar y ddarpariaeth dros amser, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar lesiant a datblygiad y plant. Er enghraifft, mae'r arweinwyr wedi gwella'r amgylchedd dysgu awyr agored, sydd wedi cyfoethogi profiadau dysgu a chwarae'r plant a datblygu eu sgiliau annibynnol yn dda. Mae'r arweinwyr yn dechrau gwerthuso llwyddiant eu cynlluniau'n

addas, drwy ganolbwyntio ar yr effaith y maent wedi'i chael ar ddysgu a llesiant y plant.

Mae'r arweinwyr wedi sefydlu partneriaethau gwerthfawr i gefnogi eu gwaith a gwella'r ddarpariaeth i blant. Mae'r ymarferwyr yn rhoi gwybodaeth fuddiol i'r rhieni a gofalwyr am ddatblygiad eu plentyn drwy ap ar-lein a chyswllt wyneb yn wyneb rheolaidd. Mae'r rhieni yn gwerthfawrogi'r cyswllt hwn ac yn teimlo y gallant siarad yn agored â'r arweinwyr a'r ymarferwyr am lesiant a datblygiad eu plant ar unrhyw adeg. Mae'r arweinwyr yn gweithio'n dda gyda phennaeth ac athrawon yr ysgol y mae'r lleoliad wedi'i leoli ynddi. Mae'r cydberthnasau cadarnhaol hyn yn helpu i feithrin trefniadau pontio cryf a chefnogol i'r plant. Er enghraifft, mae'r arweinwyr yn gweithio gyda'r athro perthnasol yn yr ysgol er mwyn rhannu gwybodaeth am y plant a fydd yn symud i'r ysgol y tymor canlynol. Mae ymweliadau rheolaidd gan asiantaethau eraill megis ymwelwyr iechyd ac athrawon cynghori'r awdurdod lleol ar gyfer ADY a'r blynyddoedd cynnar yn cefnogi gwaith yr arweinwyr a'r ymarferwyr yn dda.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac ar wefannau AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa pedwar pwynt:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac ymarfer parhaus cryf iawn |
| **Da** | Llawer o gryfderau, heb unrhyw feysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae'r cryfderau yn gwrthbwyso'r gwendidau ond mae angen gwneud gwelliannau |
| **Gwael** | Mae gwendidau pwysig yn gwrthbwyso'r cryfderau ac mae angen gwneud gwelliannau sylweddol |

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod y gwneir hynny'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a nodi teitl yr adroddiad.

Dyddiad cyhoeddi: 04/09/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi 04.09.2024**